NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Canser ofarïaidd etifeddol

21 Mawrth 2024

## Y gofal y dylech ei ddisgwyl – i bobl sy'n wynebu risg o gael genyn sy'n gysylltiedig â chanser ofarïaidd (canser ofarïaidd etifeddol)

Mae canser ofarïaidd yn effeithio ar fenywod, dynion traws a phobl anneuaidd a aned ag organau atgenhedlu benywaidd (ofarïau, tiwbiau ffalopaidd a/neu'r groth).

Weithiau mae canser ofarïaidd yn rhedeg yn y teulu felly mae mwy o achosion mewn teulu na'r disgwyl. Yr enw ar hyn yw 'canser ofarïaidd etifeddol'. Mae'n digwydd oherwydd y caiff genyn diffygiol (y term meddygol am hyn yw ‘amrywiolyn pathogenig’) ei drosglwyddo gan famau neu dadau i'w plant. Mae meddu ar enyn diffygiol yn ffactor risg, ond nid yw'n golygu'n awtomatig y byddwch yn datblygu canser ofarïaidd.

Gall dynion, menywod traws a phobl anneuaidd gydag organau atgenhedlu gwrywaidd hefyd gario genyn sy'n gysylltiedig â chanser ofarïaidd. Mae hyn yn golygu y gallent feddu ar risg uwch o ddatblygu canserau eraill, ac y gallant drosglwyddo'r genyn risg uchel i'w plant. Credir mai dim ond rhyw 3 o bob 100 o bobl sydd â genyn risg uchel sy'n gwybod amdano.

Rydym am i'r canllaw hwn wneud gwahaniaeth i bobl drwy wneud y canlynol:

- codi ymwybyddiaeth am enynnau sy'n gysylltiedig â chanser ofarïaidd a'r risg o ddatblygu canser ofarïaidd
- gwneud yn siŵr bod pobl sy'n wynebu risg o feddu ar enyn risg uchel yn cael eu cyfeirio at y gwasanaethau geneteg am sesiynau cwnsela a phrofion.
- sicrhau bod profion genetig ar gael i fwy o bobl a all fod yn wynebu risg
- gwneud yn siŵr bod pobl sy'n cario genyn risg uchel yn cael cynnig gwybodaeth a chymorth am sut i leihau eu risg o ddatblygu canser ofarïaidd.

## Gwneud penderfyniadau gyda'ch gilydd

Caiff y penderfyniadau gorau ynglŷn â thriniaeth a gofal eu gwneud ar y cyd. Dylai eich gweithwyr iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon.

Er mwyn eich helpu i wneud penderfyniadau, ystyriwch:

- Beth sydd bwysicaf i chi – beth rydych am ei gael yn sgil unrhyw brofion neu driniaeth?
- Beth sy'n eich poeni fwyaf – a oes risgiau neu anfanteision i'r profion neu'r triniaethau sy'n peri mwy o bryder i chi na rhai eraill?
- Beth fydd yr effaith ar eich bywyd bob dydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddwch am gael y driniaeth?

Os oes angen mwy o gymorth arnoch i ddeall y wybodaeth a roddir i chi, dywedwch hynny wrth eich gweithiwr iechyd proffesiynol.

Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

## Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Mae gwefan y GIG yn cynnwys mwy o wybodaeth am ganser ofarïaidd.

Gall y sefydliadau isod roi rhagor o gyngor a chymorth i chi.

- CancerHelp UK (gwefan gwybodaeth i gleifion Ymchwil Canser y DU), Llinell gymorth y nyrsys 0808 800 4040
- OUTpatients, contact@outpatients.org.uk
- Ovacome: 0800 008 7054 (cymorth) neu 0207 299 6654 (ymholiadau cyffredinol)
- Ovarian Cancer Action, 020 7380 1730
- Target Ovarian Cancer, 020 7923 5475

Er mwyn rhannu profiad am ofal a gawsoch, cysylltwch â'ch tîm Healthwatch lleol

Nid yw NICE yn gyfrifol am gynnwys y gwefannau hyn.

NICE National Institute for Health and Care Excellence

Lluniwyd y canllaw hwn gyda phobl y mae canser ofarïaidd wedi effeithio arnynt a staff sy'n eu trin a'u cefnogi. Mae'r holl benderfyniadau yn seiliedig ar yr ymchwil orau sydd ar gael.

**© NICE 2026**. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

ISBN: 978-1-4731-9434-2